# Beirniadaeth i'r WE

# Rhif 324 - Rhyddiaith Bl 9 – Tatŵ

# Beirniad – Dewi Pws

'Roedd y safon yn uchel iawn, ac amrywiaeth helaeth o ysgrifau. 'Roedd yn bleser derbyn (a darllen) cymaint o ymgeision.

Yn agos iawn at y brig, daeth

***Blodyn Chwefror (324/80), Cenyn (324/75), Iâr fach yr Haf (324/87),***

***Niwl Eto (324/31) Bradwr (324/73) a Sglodion (324 /59)***

'Rwyf wedi rhoi'r gweddill mewn grwpiau, a rhaid pwysleisio unwaith eto bod y safon yn wych.

a. Tatŵs Cysylltu Pobol , neu eu hanes

***Fflei – A39972***

***Hardy – 324/53***

***Haciwr – 324/45***

***Aberystwyth – A43720***

***John – 324/25***

***Tywysog y Tymbl – 324/12***

***Clara – 324/36 (A13221)***

***Di – Enw – 324/38***

DALIWCH ATI !!!!

b. Ysgrifennu am gael Tatŵ, neu ddyfaru!

***Mot – 324/68***

***Cwmwl Glas – 324/8 A40870***

***Glas y Dorlan – 324/9***

***Sami – 324/14***

***Sali Mali – 324/15***

***Antur – 324/4 –A16755***

***Pawb yn yr ysgol – 324/A69834***

***Tecwyn – 324/21 A72892***

***Blodyn Tatws – 324/ 24***

***Tecwyn 2 – 324/ 27***

***Tudalen – 324/ 33***

***Malen – 324/ 43***

***Blodyn – 324/ 44***

***Celyn – 324/46***

***Carndochan – 324/ 48***

***Dafad – 324/49***

***Siw – 324/50***

***Nel – 324/54***

***Seren Wen – 324/55***

***Sali Tatws – 324/58***

***Meddwl – 324/30***

***Fflos – 324/70***

***Maesglas – 324/ 65***

***Benj – 324/69***

***Pobi – 324/91***

'Rydych chi'n agos iawn i'r goreuon! – Triwch meddwl yn "wahanol" tro nesa!

DALIWCH ATI!!!!

c. Creithiau

***Manon – 324/ 66***

Gwych – Daliwch mlaen i feddwl "Tu allan i'r Blwch"!!!!

ch. Marwolaeth

***Gwair – 324/23***

***Aderyn Melyn – 324/ 84***

***Leo – 324/ 37***

Rydych chi'n sgwennwyr da! Peidiwch roi'r gore iddi !!

d. Gwahanol / Allan o'r Cyffredin

***Niwl Eto – 324/ 31***

***Bwa a Saeth – 324/61***

***Sion – 324/89***

***Chwilen – 324/57***

***Enlli – 324/56***

***Sglygfeth Brownllwyd – 324/51***

***Wiwer – 324/47***

***Person – 324/41***

***Y ci Gwyllt – 324/62***

***Unicorn – 324/64***

***Bob – 324/76***

***Casi – 324/71***

***Tom Tom Sat Nav – 324/78***

***Merry – 324/79***

***Vesuvius – 324/82***

***Melysol – 324/85***

***Melin Bupur – 324/34***

***Nest – 324/40***

***Biddig – 324/28***

***Bara Menyn – 324/7***

***Niwl – 324/10***

***Bripsyn – 324/6***

***Llew – 324/11***

***Boi Pencae – 324/13***

***Wyddfa – 324/16***

***Jack Wills – 324/18***

***Cath Kidston – 324/22***

***Rhydion Llun – 324/90***

***Gobo – 324/26***

Ysgrifennu celfydd iawn ...

dychymyg gwych a Gwnewch Fwy!!! A Mwy!!!A Mwy!!!!!

dd. Tatŵs Adnabod yr Iddewon yn y rhyfel byd

***Peris – 324/5***

***Syrec – 324/32***

***Andres – 324/39***

***Casi – 324/52***

***Anelog – 324/67***

***Pero – 324/72***

***Bobi – 324/74***

***Seren wen fach – 324/77***

***Pabi Coch – 324/19***

***Gobaith – 324/1***

***Elen – 324/2***

Drwy goffáu canmlwyddiant y rhyfel byd yn 2014 - mae'n amlwg gweld pam fod cymaint o blant wedi dewis yr un testun - ac , unwaith eto, 'roedd y safon yn wych. Pawb yn agos iawn at ei gilydd - DYFALBARHAD!!!

e. Rhyfel

***Cymraes – 324/86***

***Bwgan Brain – 324/83***

***Babi Bo – 324/88***

Y safon yn uchel a phawb yn mynd ar drywydd gwahanol – Sticiwch Ati!!

f. Cenedlaetholgar

***Pili Pala – 324/***

***Meillionen – 324/***

***Trysor y Mynydd – 324/***

Da iawn am feddwl yn wahanol. 'Rydych chi'n ysgrifennu'n dda, ac yn edrych ar y byd "o'r tu allan" – Gwych!

## Yn Agos At y Brig

***Blodyn Chwefror 324/80***

Roni'n hoffi'r syniad, yn wahanol iawn, a throad gwych yn y gynffon.

Dal ati i sgwennu ..... dyfal donc......

***Cenyn 324/75***

Mor anodd yw'r gwahaniaethu rhwng y straeon. Cystal yw'r safon. Mae hon eto yn wych, a'i diweddglo yn ddagreuol ond rhywsut yn dod a gwên drist-hapus i'r wyneb. Hyfryd!

***Iâr Fach yr Haf 324/87***

Hanes am ferch unig sy'n cael ei bwlio ac yn cael rhyddhad drwy niweidio ei hun. Mae'n dangos craffter, dealltwriaeth o sut mae'r meddwl ifanc yn gweithio. Mae wedi ysgrifennu'n dda, ac yn y diwedd mae'r ferch yn curo'i chythreuilion. Bendigedig, dal ati!

***Niwl Eto 324/31***

Stori dditectif! A Lisa yn llwyddo i rwystro'r dihirod rhag cyflawni eu cynllun dieflig. Wedi ei sgrifennu'n dda, a dychymyg bywiog .... da iawn.

***Bradwr 324/73***

Hanes trist arall, (pam rwy'n hoffi tristwch???). Mae'n amlwg bo'r bobol ifanc yn mwynhau'r lleddf hefyd ar adegau- ond, eto mae'n gorffen ar nodyn cadarnhaol ..... Rhagorol!!!

***Sglodion 324/59***

Un arall sy'n sgrifennu'n dda, ac yn gallu godro'r emosiynau. Marwolaeth arall, ond eto hapusrwydd rhyfedd yn trechu yn y diwedd .... Dal Ati!

## Yn Fuddugol 2015

### 1. Mwnci Main A28616

'Roedd darllen hon yn codi llawer math o emosiwn - trueni, tristwch a chydymdeimlad ond drwy hyn i gyd, yn creu tyndra. 'Roedd rhaid cael gwybod beth oedd yn digwydd i'r cymeriad canolog.

Mae'r stori wedi ei chrefftio yn gelfydd, gyda delweddau a disgrifiadau gwych yn gwneud i'r stori lifo. Erbyn y diwedd mae *Mwnci Main* yn dangos mai cariad anfarwol mam tuag at ei merch sydd yn goresgyn. Mae'r diweddglo yn gynnil - dim ond dau air –

*"Fy Mam"*

sy'n cloi'r stori yn berffaith. Aeddfedrwydd a chynildeb cryf o ystyried pa mor ifanc yw'r awdur. Llongyfarchiadau mawr.

## 2. <u>Mared A37752</u>

Hanes arall personol iawn, yn sôn am broblemau meddyliol un sydd yn ei harddegau cynnar. 'Rym yn dilyn *Mared* trwy ei pherthynas gyda'i rhieni, sy'n cael problemau mawr yn eu priodas, a salwch teuluol sydd yn eu rhwygo ar wahân. Mae cryfder emosiynol y ferch yn dod a gobeithion am ddyfodol gwell yn gryfach, ac mae'r diweddglo yn hudolus o "Hapus-drist". Gwych.

## 3. <u>Siani 324/42</u>

> *'Gair mawr 'di "leukaemia". Gair sy'n lladd miloedd bob blwyddyn. Gair mawr a laddodd fy merch i....'*

Dyma agoriad gwych! Mae'r stori yn un fer ....ond mor effeithiol! Dwy dudalen o hanes merch fach yn marw: dwy dudalen yn unig! .... ond mor drawiadol.
Mae'n stori drist, ond gydag ambell lygedyn o hapusrwydd, fel y daith i Disney Land Paris. Mae'r ferch fach Enlli yn marw yn y pen draw, ond mae'r diweddglo yn llawn gobaith. Mae'r tatŵ ar gledr llaw ei mam yn personoli'r ferch a gollwyd , ond bydd nawr yn aros gyda'r fam am byth.

> *'Pryd bynnag dwi'n ei cholli ac yn teimlo fel bod bywyd wedi bod yn annheg, gallaf gau fy llaw i ddwrn a'i agor eto gan ollwng y pili-pala'n rhydd, gollwng Enlli'n rhydd.'*

Hyfryd!

Unwaith eto diolch i BAWB am gystadlu, a chofiwch tase beirniad arall wedi bod yn darllen eich storïau - falle bydda'r canlyniad wedi bod yn hollol wahanol! Felly

**DALIWCH MLAEN I YSGRIFENNU - BYDDWCH WYCH!!!**